# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## (Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Llun, 17 Ebrill 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | J.Hale, M.Harvey, J.Henton, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.Rogers a/ac S.Thomas |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran and A.Thomas |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 fel cofnod cywir.

3. **ADRODDIAD TERFYNOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2023/24**

   Cyflwynwyd Adroddiad Terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24 i'r Aelodau fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

   Nododd yr aelodau'r adroddiad.

4. **ASESIAD O ADNODDAU I GEFNOGI SWYDDOGAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd gwybodaeth i aelodau yn ymwneud ag asesiad o adnoddau i gefnogi swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd grynodeb o'r adroddiad. Mae llwyth gwaith Tîm y Gwasanaethau Democrataidd a'r galwadau sydd arnynt yn gyson ac yn cynyddu oherwydd y dyletswyddau a osodir arnynt gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Amlinellodd swyddogion hefyd y gefnogaeth gwasanaethau democrataidd a ddarperir i'r pwyllgorau corfforedig a'r cyd-bwyllgorau rhanbarthol

Dywedodd y swyddog wth yr aelodau i gymryd sylw o'r ffaith bod y Tîm yn gweithio hyd eithaf eu gallu a byddai eu hyblygrwydd i ymgymryd â dyletswyddau pellach yn arbennig o anodd.

Nodwyd bod gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddyletswydd statudol i adrodd yn flynyddol am y mater hwn, fodd bynnag, o gofio'r llwyth gwaith sydd ar ddod, dywedwyd wrth yr aelodau y byddai adroddiad yn cael ei ddarparu bob hanner blwyddyn

**Penderfynwyd: Bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo'r strwythur Gwasanaethau Democrataidd a amlinellwyd yn Atodiad 1 ac yn nodi'r adroddiad.**

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Amlinellodd swyddogion yr arolwg cyfredol o aelodau sy'n cael ei gynnal ac y bydd y pwyllgor yn gallu ystyried canlyniad hwn.

Cynhelir sesiwn blaenraglen waith yn gynnar yn y flwyddyn ddinesig newydd fel y gall aelodau ystyried eitemau y maent yn dymuno edrych arnynt y flwyddyn nesaf.

Nododd yr aelodau'r adroddiad.

## 6. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**